**Atodiad 3**

# BRIFF MANWL

Pwrpas y briff yw darparu sylfaen gadarn i'r prosiect.

Mae'n hanfodol cytuno'r briff (ac unrhyw newidiadau a wneir iddo nes ymlaen) gyda'r comisiynwyr cyn cychwyn ar y gwaith manwl. Gweler y cytundeb yn rhif 8 isod.

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Enw'r prosiect** | **Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion** |
| **2.** | **Aelodau'r Gweithgor** | Cadeirydd y Gweithgor Gwella<br>Cynrychiolydd o bob grŵp i'w dynnu o aelodaeth Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc<br>Arweinydd Portffolio Ysgolion i dderbyn gwahoddiad i ymuno â'r Gweithgor fel sylwebydd.<br><br>Cefnogir gwaith y gweithgor gan swyddogion perthnasol gan gynnwys:<br>Iwan Trefor Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Dewi R. Jones – Pennaeth Adran Addysg<br>Seimon Williams – Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion |
| **3.** | **Diffiniad o'r prosiect – beth yw'r briff fel y'i diffiniwyd gan y Pwyllgor Craffu, a beth yw eu disgwyliadau o ran ansawdd y gwaith?** | Crëwyd Gweithgor Gwella i adolygu darpariaeth gynradd ym mis Mehefin 2008. Daeth y Gweithgor Gwella i ben gyda chyhoeddiad strategaeth *Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a'i dderbyniad gan Gyngor Gwynedd ar 2 Ebrill 2009.<br><br>Mae'r adolygiad o'r prosiect sydd gerbron y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 30 Tachwedd 2010 yn argymell sefydlu Gweithgor Gwella o'r newydd er mwyn ystyried darpariaeth addysgol ar draws y sir gan gynnwys addysg feithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig. Awgrymir felly y dylai'r Gweithgor Gwella dderbyn briff gan y Pwyllgor Craffu i adolygu holl ddarpariaeth addysgol y sir, a hynny fesul dalgylch oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn amlygu'r angen i adolygu ar lefel is neu traws-ddalgylch. |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **Sgôp y gwaith – beth yw'r union gwestiynau sydd angen eu hateb i gyfarfod â briff y Pwyllgor Craffu?** | Cam A – Tymor Byr<br>i) Adnabod, casglu ac ystyried tystiolaeth berthnasol fewnol ac allanol ar sefyllfa trefniadaeth ysgolion cynradd Gwynedd.<br><br>Cam B – Tymor Canolig-Hir<br>i) Llunio argymhellion ar gyfer trefniadaeth addysg Gwynedd i'r dyfodol<br>ii) Cyflwyno'r argymhellion a chynigion i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac yna i'r Cyngor llawn |
| **5.** | **Materion a adawyd allan o sgôp y Gweithgor ar bwrpas** | Dim |
| **6.** | **Cyfyngiadau:<br>Statudol –<br>Polisi –<br>Cyllidol –<br>Amser –** | Mae cyfyngiadau o safbwynt adnoddau dynol a'r amser y gellir ei neilltuo ar gyfer cyflawni'r dasg.<br><br>Adnabyddir ystod o ffactorau polisi, cyllidol ac eraill sy'n gyrru gwaith y Gweithgor. |
| **7.** | **Amserlen – dyddiad bwriedir cwblhau'r gwaith** | Bwriedir cyflwyno adroddiad ar gynnydd y gweithgor at sylw'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn gwanwyn/ haf 2011 fydd yn amlinellu amserlen ar gyfer adolygiadau dros y 4 mlynedd nesaf. Mae'r prosiect yn un hir dymor a bydd adroddiadau pellach yn dilyn wrth i'r gwaith symud yn ei flaen. |

| 8. | **CYTUNDEB** |
| --- | --- |

Cytunaf i'r briff manwl fel y nodwyd uchod ar gyfer y Gweithgor …………………………………………………………………….

**Arwyddwyd**

**------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------- Arweinydd Portffolio**

**------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------- Cadeirydd y Pwyllgor Craffu**

**------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------ Cyfarwyddwr Strategol**

**Dyddiad…………………………………………………………………………………………………….**